Gweiddi

## Tasg 1

# Gwneud bywoliaeth ar y we!

1. Oeddech chi’n gwybod am PewDiePie neu Jamal cyn darllen y darn?
   Ydych chi neu aelodau’r dosbarth yn gwybod am **ddynion a merched eraill** sy’n gwneud eu bywoliaeth o’r we? Rhowch enghreifftiau, gan nodi beth yn union y maen nhw’n ei wneud.

2. A fyddech chi’n mentro gwneud rhywbeth tebyg i PewDiePie a Jamal?
   Sut gallech chi wneud bywoliaeth o’r we?

   Beth yw manteision ac anfanteision ceisio gwneud bywoliaeth drwy ddefnyddio’r we, yn eich barn chi?

   Manteision:

   Anfanteision:

3. Meddyliwch am ansoddeiriau i ddisgrifio PewDiePie a Jamal.

4. Meddyliwch am dri chwestiwn i'w holi i'r ddau.

i) ?

ii) ?

iii) ?

5. Gyda phartner, llenwch y tabl hwn â gosodiadau. Byddwch chi'n **copïo** rhai, yn syth o'r darn, felly byddan nhw'n gywir, a byddwch chi'n **newid** rhai eraill ychydig bach fel eu bod nhw'n anghywir.

Gofynnwch i bâr arall a ydyn nhw'n gywir neu'n anghywir.

Yna, gwrandewch ar osodiadau'r pâr arall a phenderfynwch a ydyn nhw'n gywir neu'n anghywir.

| Gosodiad | Cywir? | Anghywir? |
|---|---|---|
| 1. | | |
| 2. | | |
| 3. | | |
| 4. | | |
| 5. | | |

6. Beth yw ystyr y llythrennau MBE?
Ydych chi'n gwybod am rywun yng Nghymru sydd wedi cael MBE?
Beth yw eich barn am dderbyn anrhydedd gan y Frenhines?

7. Pam mae * ar ôl SBTV?

8. Dychmygwch mai chi yw un o rieni PewDiePie. Ysgrifennwch baragraff byr yn sôn am sut roeddech chi'n teimlo:

i) pan oedd PewDiePie yn colli'r ysgol
ii) pan benderfynodd adael y brifysgol, a hefyd
iii) sut rydych chi'n teimlo nawr.

9. Sut byddai eich athro neu rywun gartref yn ymateb petaech chi'n dweud eich bod yn mynd i wneud bywoliaeth ar y we?

Ysgrifennwch ddeialog fer i ddangos yr ymateb. Mae'r penawdau wedi'u rhoi i chi. Gallwch ychwanegu rhagor os ydych chi eisiau.

Fi:

Person arall:

Fi:

Person arall:

Fi:

Person arall:

Fi:

10. Dewiswch a chopïwch yr ymadroddion sy'n cael ei ddefnyddio yn y darn yn lle'r rhain, a'u defnyddio wedyn yn eich brawddegau eich hun:

i) ennill arian i fyw -

ii) yn gyfoethog iawn -

iii) ceisio gwneud digon o arian i fyw -

iv) yn raddol -

v) yn y dechrau -

11. Tanlinellwch ffurfiau **gorffennol cryno**'r ferf yn y darn hwn:

Cafodd Jamal gamera fideo syml yn anrheg Nadolig pan oedd yn 15 oed. Dechreuodd ffilmio ffrindiau'n rapio neu'n canu, ac yna byddai'n lanlwytho'r fideos i YouTube er mwyn i ffrindiau eraill eu gweld.

Gadawodd yr ysgol a mynd i weithio yn Topman. Yn ei amser hamdden byddai wrthi'n brysur yn gwneud fideos. Dechreuodd mwy a mwy o bobl wylio'r fideos, felly sefydlodd gwmni SBTV a chyn hir, roedd cannoedd o filoedd o bobl ifanc yn gwylio.

Felly, cysylltodd Jamal â YouTube i weld a oedd ganddo hawl i ychydig o arian yr hysbysebion. Gwrthododd YouTube dair gwaith, ond daliodd Jamal ati. Profodd mai ei waith gwreiddiol ef oedd y fideos ac anfonodd YouTube siec o ychydig gannoedd o bunnau ato.

**Tasg ymestynnol:** Newidiwch y darn i'r person cyntaf, gan esgus mai chi yw Jamal sy'n adrodd yr hanes:

**Cefais** gamera syml yn anrheg Nadolig pan **oeddwn** i'n 15 oed. **Dechreuais...**

12. Edrychwch ar y frawddeg hon: Ei sianel yw'r un fwyaf poblogaidd ar YouTube.

Pam mae 'fwyaf' yn treiglo fan hyn?

Tanlinellwch yr ansoddair cywir bob tro yn y brawddegau hyn:

i) Fy mrawd i yw'r bachgen talaf/dalaf yn ei ddosbarth.

ii) Fy chwaer i yw'r ferch talaf/dalaf yn ei dosbarth.

iii) Y llyfr hwn yw'r un mwyaf diddorol/fwyaf diddorol, yn fy marn i.

iv) Y rhaglen hon yw'r un mwyaf diddorol/fwyaf diddorol, yn fy marn i.

v) Fy siwmper yw'r un mwyaf cynnes/fwyaf cynnes sydd gennyf.

vi) Car Mr Jones yw'r un cyflymaf/gyflymaf yn y maes parcio.

vii) Llais Nia yw'r un cryfaf/gryfaf yn y côr.

viii) Y pryd bwyd hwn yw'r un mwyaf blasus/fwyaf blasus a gefais erioed.

13. Meddyliwch am lysenw Cymraeg i'w ddefnyddio ar y we yn lle eich enw go iawn.